# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Chwefror 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o weision sifil Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd dan gontract cyfnod penodol, a beth yw'r drefn o ran adnewyddu'r contractau hynny. (WAQ22578)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);**O gofio'r ystyriaethau crefyddol a llysieuol sensitif, pa gyngor y mae'r Gweinidog yn ei roi ynghylch Heparin synthetig a ddefnyddir yn lle Heparin wedi'i wneud o borc. (WAQ22579)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â Gweinidogion yn San Steffan ynghylch y cynllun arfaethedig ar gyfer pasbortau ceffylau. (WAQ22572)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun arfaethedig ar gyfer pasbortau ceffylau a pha astudiaeth y mae wedi'i gwneud, os yw wedi gwneud astudiaeth, o effeithiau hynny ar Gymru. (WAQ22573)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored.*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa safbwyntiau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i'w gydweithwyr yn San Steffan i sicrhau nad yw cyn-ymladdwyr y Taliban sy'n ceisio lloches yn cael eu gwasgaru i Gymru. (WAQ22574)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod ceiswyr lloches sydd ar wasgar yng Nghymru yn cael eu harchwilio'n gywir er mwyn sicrhau nad ydynt yn fygythiad i'r cyhoedd. (WAQ22575)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog yn derbyn rhestr fanwl o darddle'r ceiswyr lloches sy'n cael eu gwasgaru i Gymru. (WAQ22576)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd mae cyfarfod nesaf y Gweinidog gyda'i gydweithwyr yn San Steffan i drafod mater y ceiswyr lloches, ac a fydd yn rhoi adroddiad llawn, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, i'r Cynulliad yn dilyn y cyfarfod hwn. (WAQ22577)